

Crynodeb: Newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol – Hysbysu gorfodol am blant ac oedolion sy'n wynebu risg



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Beth yw pwrpas yr ymgynghoriad hwn?

Rydym yn awyddus i gael eich barn am newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â gofal cymdeithasol a Gofal Iechyd Parhaus y GIG.

Rydym wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n nodi manylion y cynigion ac yn gofyn cwestiynau cysylltiedig.

Pennod 3 – Hysbysu gorfodol am blant ac oedolion sy'n wynebu risg

Mae hyn yn ystyried a ddylid ehangu dyletswyddau hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod – yn adrannau 128 a 130 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – i fod yn berthnasol yn uniongyrchol i unigolion mewn cyrff perthnasol.

Ar hyn o bryd, mae'r dyletswyddau yn ei gwneud yn ofynnol i 'bartneriaid perthnasol' awdurdodau lleol – gan gynnwys y GIG, yr heddlu, timau prawf/troseddau ieuencid ac awdurdodau lleol eraill – hysbysu'r awdurdod hwnnw os oes ganddynt sail resymol dros gredu bod plentyn neu oedolyn, sydd ag anghenion am ofal a chymorth, sydd yn yr ardal awdurdod honno, yn profi neu'n wynebu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod (neu fath arall o niwed, yn achos plentyn).

Mae'r rhain yn ddyletswyddau sefydliadol, wedi'u cefnogi gan ganllawiau statudol – Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – sy'n rhoi cyngor clir ar beth ddylai ymarferwyr a sefydliadau ei wneud pan fyddant yn credu bod person wedi dioddef niwed neu'n debygol o wneud hynny.

Yn ystod yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol mae trafodaeth sylweddol wedi bod ar y 'ddyletswydd i hysbysu' ac a ddylid gosod gofynion cyfreithiol yn uniongyrchol ar unigolion i hysbysu gwybodaeth neu amheuan am niwed (e.e. camdriniaeth neu esgeulustod) i awdurdodau dynodedig.

Pam rydym yn ymgynghori?

Mae'n amserol ystyried y dyletswyddau cyfredol i hysbysu am oedolion a phlant sy'n wynebu risg, o fewn Deddf 2014, ac ystyried a fyddai ehangu'r dyletswyddau hyn i gynnwys gofyniad cyfreithiol uniongyrchol ar unigolion yn amddiffyn plant ac oedolion yng Nghymru rhag niwed yn well.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn gwahodd eich barn ar:

- yr egwyddor o osod dyletswyddau yn uniongyrchol ar unigolion
- a ddylai'r dyletswyddau fodoli ochr yn ochr â'r dyletswyddau sefydliadol cyfredol
- a ddylai dyletswyddau hysbysu unigol fod yn berthnasol i weithlu'r 'partneriaid perthnasol' cyfredol neu'n ehangach (e.e. lleoliadau crefyddol neu chwaraeon)
- a ddylai dyletswyddau hysbysu unigol fod yn berthnasol i weithwyr proffesiynol rheoleiddiedig, staff cyflogedig neu'n ehangach (e.e. gwirfoddolwyr)
- sancsiynau sy'n gymesur neu'n briodol
- yr effeithiau, manteision, costau, a'r risgiau sy'n debygol ac unrhyw faterion cysylltiedig.

Sut galla i roi fy marn i Lywodraeth Cymru?

Gallwch gyflwyno eich ymateb **erbyn hanner nos ar 7 Tachwedd 2022**, yn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- Llenwi ein ffurflen ar-lein, **neu**
- Lawrlwytho a llenwi ein ffurflen ymateb a'i hanfon drwy e-bost at: YmgynghoriadGofalCymdeithasol@llyw.cymru **neu** ei phostio i'r cyfeiriad sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori.

Darllenwch y ddogfen ymgynghori cyn ystyried eich ymateb. Mae'r ddogfen ar gael ar: llyw.cymru/newidiadau-arfaethedig-ir-ddeddfwriaeth-ar-ofal-cymdeithasol-gofal-iechyd-parhaus-y-gig